COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) A GYNHALIWYD DDYDD IAU, 6 CHWEFROR 2025 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

| | |
|---|---|
| A R Berrow | J Llewellyn-Hopkins |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cymorth |
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Andrea Lee | Uwch Gyfreithiwr |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Louis Stelling | Coleridge Law (Yn cynrychioli'r ceisydd) |
| Kuldip Sidhu | Ceisydd |
| Y Cynghorydd Timothy Thomas | Gwrthwynebydd |
| David Price | Gwrthwynebydd – Absennol (Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Thomas yn ei gynrychioli) |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 22. Amrywiad i Drwydded Safle ar gyfer Brynmenyn Stores, 4 Heol Abergarw, Brynmenyn, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 9LF

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Swyddog Trwyddedu, a'i bwrpas oedd penderfynu ar amrywiad i drwydded safle ar gyfer Brynmenyn Stores (Premier).<br><br>Sefydlwyd bod Mr David Price yn dal i fod yn Wrthwynebydd, ac er nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod, byddai'n cael ei gynrychioli gan y Cynghorydd Thomas. Roedd y gwrthwynebydd arall, Mr Philip Sage, wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl.<br><br>Yn ystod y cyfarfod roedd y Cadeirydd yn sâl, ac felly cymerodd y Cynghorydd Berrow y Gadair yn ei lle, ar ôl i hyn gael ei gynnig a'i eilio. Arhosodd y Cynghorydd Lewis yn y cyfarfod.<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth rhwng y panel, y ceisydd a'i gyfreithiwr ynghylch y pwyntiau a grybwyllir isod:<br><br>• Dywedodd y cyfreithiwr a oedd yn cynrychioli'r ceisydd nad oedd disgwyl i oriau trwyddedadwy'r ceisydd ychwanegu at unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol a byddai ymestyn oriau ei drwydded ond yn caniatáu iddo fod yn endid masnachol gwell yn ogystal â chaniatáu, gobeithio, iddo wasanaethu pobl yr ardal yn well nag y mae eisoes.<br><br>• Gofynnodd aelod sut y byddai'r ceisydd yn atal achosion o werthu alcohol i unigolyn sydd eisoes yn feddw ar yr olwg gyntaf. Ymatebodd y Cyfreithiwr nad oedd yn bosibl pennu cyflwr unigolyn yn gywir heblaw am yr hyn a gyflwynir o flaen y person sy'n gwneud y gwerthiant hwnnw. Fodd bynnag, cymerir mesurau i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i adnabod arwyddion, bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai'r prynwr fod dan oed, ac i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â sefyllfaoedd o'r fath.<br><br>• Gofynnodd y Gwrthwynebydd i'r Uwch Swyddog Trwyddedu ymhelaethu ar y datganiad bod Heddlu De Cymru yn cefnogi'r Drwydded tra bo argymhellion yn yr arfaeth. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fod yr amodau y cytunwyd arnynt a fydd yn cael eu gosod yn cynnwys y canlynol:<br><br>- Bydd system deledu cylch cyfyng ar y safle.<br>- Bydd y cynllun 'Herio 25' yn cael ei weithredu gydag arwyddion i'r perwyl hwnnw.<br>- Bydd staff yn cael eu hyfforddi yn y cynllun 'Herio 25' a bydd cofnodion o'r hyfforddiant hwnnw'n cael eu cadw. |

| | |
|---|---|
| | • Yna gofynnodd yr Uwch Gyfreithiwr am eglurhad gan y Gwrthwynebydd ynghylch y gwrthwynebiadau a godwyd. Cadarnhaodd y Gwrthwynebydd, ar sail y mesurau a gyflwynir, y byddai'n tynnu ei wrthwynebiadau yn ôl. Soniodd y Gwrthwynebydd y byddai'n parhau i fonitro'r cynnydd a'r gweithrediad er lles y gymuned. Dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr hefyd, gan nad oedd y Gwrthwynebydd arall yn bresennol i roi sylwadau, mai dim ond ei wrthwynebiadau ysgrifenedig y gallai aelodau'r panel eu hystyried ar yr adeg yr oedd y penderfyniad yn cael ei wneud.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Penderfynodd yr Is-bwyllgor roi'r drwydded ar gyfer Gwerthu Alcohol i'w yfed oddi ar y safle i'r canlynol: -<br><br>Dydd Llun i Ddydd Sul 07:00 tan 22:00<br><br>Yn unol â'r cytundeb gyda'r Heddlu, bydd yr amodau canlynol hefyd yn cael eu hychwanegu at y Drwydded: -<br><br>1. Rhaid i'r safle gynnal system recordio teledu cylch cyfyng (CCTV) digidol sy'n gallu recordio 31 diwrnod o recordio 24 awr gyda monitor allan o olwg a chyrraedd cwsmeriaid.<br>Dylid cadw delweddau am gyfnod o 31 diwrnod. Bydd yr offer wedi'i ddiogelu'n addas gyda mynediad cyfyngedig ato. Bydd y system CCTV yn cwmpasu pob ardal y mae gan y cyhoedd fynediad iddi o fewn yr adeilad a bydd hyn yn cynnwys mynedfeydd ac allanfeydd. Rhaid cynnal a chadw'r system CCTV a'i gweithredu bob amser y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd delweddau ar gael ar gais ac o fewn 7 diwrnod i'r Heddlu neu swyddogion gorfodi eraill naill ai ar USB, disg neu drwy unrhyw system a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru, ar gais cyfreithlon gan swyddog yr Heddlu neu swyddog yr Awdurdod Lleol heb unrhyw gost.<br><br>Bydd y system CCTV wedi'i chofrestru ac yn cydymffurfio â'r gofynion o dan reoliadau diogelu data.<br><br>Dylid arddangos arwyddion yn amlwg yn hysbysu cwsmeriaid eu bod yn cael eu ffilmio ar CCTV.<br><br>Bydd y system CCTV yn cael ei gwirio bob mis i sicrhau ei bod yn gwbl weithredol, a bydd log yn cadarnhau hyn yn cael ei gadw ar y safle i'w archwilio.<br><br>2. Bydd gweithredu'r cynllun 'Herio 25' yn cynnwys: |

| | |
|---|---|
| | Arddangos arwyddion rhybuddio priodol i'r perwyl y bydd unrhyw berson sy'n ymddangos o dan 25 oed yn destun her mewn perthynas â nwyddau sydd â chyfyngiad oedran. Rhaid arddangos arwyddion o'r fath wrth fynedfa'r adeilad, a lle mae alcohol yn cael ei arddangos.<br><br>3. Bydd staff yn cael eu hyfforddi i ofyn i unrhyw gwsmeriaid sy'n ymddangos o dan 25 oed gyflwyno ffurf dderbyniol o ddogfen adnabod pan fyddant yn ceisio prynu alcohol.<br>Y ffurfiau derbyniol o ID:<br>a) Prawf Oedran Achrededig PASS<br>b) Trwydded yrru â llun<br>c) Pasbort<br>d) ID Milwrol<br>Dim ond dogfennau gwreiddiol sy'n dderbyniol. Ni dderbynnir ffotograffau o'r dogfennau uchod (a ddangosir ar ffonau symudol ac ati).<br><br>Dylai'r holl staff sy'n ymwneud â gwerthu alcohol ar y Safle gael hyfforddiant ynghylch defnyddio'r cynllun 'Herio 25', cynhyrchu dogfennau adnabod a ffurfiau adnabod derbyniol, y gofrestr gwrthod a gwerthu alcohol drwy ddirprwy. Rhaid i'r aelod staff unigol dan sylw ddogfennu a dyddio'r hyfforddiant hwnnw. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r un peth ar y Safle a'i wneud ar gael i unrhyw Swyddog Awdurdodedig ar gais. Dylid cynnal hyfforddiant gloywi o leiaf bob 6 mis. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 06/02/2025 |

I weld y ddadl agored bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**